**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddiogelu staff y GIG rhag Trais ac Ymddygiad Ymosodol: Gorffennaf 2009**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n falch i dderbyn yr adroddiad ac yn croesawu'r casgliadau.

1 **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau gweithio ar yr holl eitemau a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.**
Derbyniwyd: Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod gwaith ar y meysydd canlynol yn cael ei gyflawni fel mater o frys:

- Sefydliadau i ddiweddaru eu Systemau Datix presennol i'r fersiwn ddiweddaraf o Datix erbyn Hydref 2009. Bydd hyn yn rhoi'r opsiwn iddynt gofnodi digwyddiadau'n electronig drwy eu systemau mewnrwyd ac i safoni'r ffurflen adrodd a ddefnyddir i fod yn berthnasol ar gyfer trais ac ymddygiad ymosodol. Dylai hyn helpu staff i hwyluso adroddiadau am ddigwyddiadau a'u gwneud yn hyderus wrth ddefnyddio eu systemau adrodd.

- Prif GCyfarwyddwyr Gweithredol i ddatblygu, erbyn mis Hydref 2009, Gynlluniau Gweithredu Cyflogwyr ar gyfer Trais ac Ymddygiad Ymosodol ar gyfer y Byrddau Iechyd newydd. Mae Cam 16 y cynllun yn cynnwys y gofyniad i ddioddefwyr gael ymyrraeth seicolegol briodol cyn pen 3 diwrnod ar ôl y digwyddiad, a allai arwain at leihad yn yr hawliad am niwed personol. Mae Cam 18 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau benodi rheolwr achos i weithredu fel pwynt cyswllt unigol i gydgysylltu a darparu adborth i ddioddefwyr a chydgysylltu â'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn perthynas ag ymchwilio i ddigwyddiadau ac erlyn troseddwyr. Mae Cam 25 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysu Ystadau Iechyd Cymru o adeiladau newydd ac unrhyw ailwampio fel y gallant hwy, mewn partneriaeth â'r Heddlu, fanteisio i'r eithaf ar egwyddorion "Diogelu drwy Ddylunio".

- Mae'r codau safonol newydd ar gyfer cofnodi digwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol yn cael eu defnyddio yn Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru (yn rhannol), Bwrdd Iechyd Lleol Powys a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn Ymddiriedolaeth y GIG, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru a'r sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod y codau yn eu lle erbyn 1 Hydref 2009 fan bellaf a bod yr adroddiad cyntaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gael ym mis Ionawr 2010 am y cyfnod Hydref – Rhagfyr 2009.

- Mae'r Cynllun Gwybodaeth a Phasport Hyfforddi Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru gyfan yn cael ei adolygu. Bydd yr adolygiad yn delio'n benodol ag effeithiolrwydd hyfforddiant a ddarparwyd yn flaenorol yn ogystal â chyflwyno Modiwl D - Hyfforddiant Ymyrraeth Corfforol.

Bydd Gr• p Cynghori Trais ac Ymddygiad Ymosodol Cymru gyfan yn datblygu'r modiwl hwn erbyn Hydref 2009. Cynhelir yr adolygiad ehangach erbyn Ebrill 2010.

- Mae trafodaethau ar y gweill i ddatblygu modiwl hyfforddi cyson ar gyfer staff diogelwch y GIG yn unol â'r hyfforddiant a ddarperir i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr heddlu. Yr amserlen ar gyfer gweithredu'r modiwl hyfforddiant hwn fydd Awst 2010.

- Cyn bo hir bydd amlinelliad o gynnig drafft ar gyfer system fonitro gweithwyr unigol yn cael ei anfon at y Gweinidog Iechyd. Mae'r System Gweithiwr Unigol yn gwneud cynnydd da ac mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn trafod costau â chyflenwr y GIG yn Lloegr. Ni ellir trosglwyddo'r achos busnes i'r Gweinidog Iechyd hyd nes y bydd costau cynhwysfawr ar gael. Yr amserlen ar gyfer yr Achos Busnes i gyrraedd y Gweinidog Iechyd yw dechrau Medi 2009.

- Cytunwyd ar Femorandwm Esboniadol gyda Heddlu De Cymru. Trafodwyd y Memorandwm gan 4 o luoedd Heddlu Cymru ar 2 Mehefin 2009. Roedd pawb o blaid y ddogfen er bod angen gwneud rhai diwygiadau ar lefel leol. Bydd y Gweinidog Iechyd yn llofnodi Memorandwm Esboniadol Heddlu De Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi 2009.

- Treialu camerâu cylch cyfyng i ddechrau mewn 4 Adran Damweiniau ac Achosion brys a 5 Ambiwlans yn ystod hydref 2009 am gyfnod o 12 mis. Swyddogion LlCC i gymharu data am ddigwyddiadau a nifer yr erlyniadau llwyddiannus a gafwyd yn ystod y cyfnod treialu â'r hyn a gafwyd cyn hynny. Yn dilyn gwerthuso'r treialu, y Gweinidog Iechyd i benderfynu a ddylid ehangu'r fenter i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys eraill yng Nghymru.

Amserlenni: Gweler pwyntiau bwled unigol uchod

**2 At hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymateb yn y dull arferol i'r adroddiad hwn, yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd ar ddiwedd y flwyddyn. Erbyn hynny, dylai allu dangos bod yr holl gamau sy'n dibynnu ar sefydlu'r byrddau iechyd lleol newydd wedi cael eu cymryd, a bod y camau hynny wedi arwain at ganlyniadau**

Derbyniwyd: Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl gamau a gymerwyd i ymdrin â thrais ac ymddygiad ymosodol yn erbyn staff y GIG a thystiolaeth i'w cefnogi erbyn diwedd Rhagfyr 2009.

Amserlenni: Rhagfyr 2009